

monmouthshire
sir fynwy

Monmouthshire
Family Information Service
Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd



# Cymorth Ariannol



## i Deuluoedd yn Sir Fynwy

monmouthshire.gov.uk/fis



# Adeg Beichiogrwydd:





# Cychwyn Iach:

Os ydych chi'n fwy na 10 wythnos o feichiogrwydd neu os oes gennych chi blentyn o dan 4 oed, efallai y bydd gennych chi hawl i gael help i brynu bwyd iach a llaeth.
Os ydych yn gymwys, bydd cerdyn Cychwyn Iach yn cael ei anfon atoch gydag arian arno y gallwch ei ddefnyddio mewn rhai siopau yn y DU.
Bydd y GIG yn ychwanegu eich budd-dal at y cerdyn hwn bob 4 wythnos.
Gallwch ddefnyddio'ch cerdyn i brynu:

- llaeth buwch hylif plaen
- ffrwythau a llysiau ffres, wedi'u rhewi a rhai mewn tuniau
- codlysiau ffres, sych a thun
- llaeth fformiwla babanod yn seiliedig ar laeth buwch

Gallwch hefyd ddefnyddio'ch cerdyn i'w gasglu:
·Fitaminau Cychwyn Iach – mae'r rhain yn eich cefnogi yn ystod beichiogrwydd a bwydo ar y fron
·Diferion fitamin ar gyfer babanod a phlant ifanc – mae'r rhain yn addas o'r cyfnod pan fydd plant yn cael eu geni hyd at eu bod yn 4 oed

- 



## Gwasanaethau Iechyd Aneurin Bevan:

Dilynwch
https://www.facebook.com/AneurinBevanHVS
am wybodaeth am ddigwyddiadau a chyrsiau cyn geni, gwasanaethau ymwelwyr iechyd, imiwneiddiadau a mwy.

## Absenoldeb Mamolaeth a Hawliau Statudol

I gael gwybodaeth am yr hyn y mae gennych hawl iddo o amser i ffwrdd, absenoldeb rhiant a rennir, budd-daliadau, gweithio hyblyg a chymorth arall ewch i

https://111.wales.nhs.uk/livewell/pregnancy/healthwellbeinghealthatworkmpb/

# Iechyd y Geg:

ae triniaeth ddeintyddol y GIG AM DDIM i chi yn ystod eich beichiogrwydd a hyd nes y bydd eich plentyn yn flwydd oed. Gwnewch apwyntiad i ymweld â deintydd cyn gynted â phosibl nawr eich bod yn feichiog. I gael help i ddod o hyd i ddeintydd yng Nghymru, ewch GIG 111 Wales.

## O'r adeg pan fyddwch chi'n cael babi am y tro cyntaf:





# Budd-dal Plant

Gallwch hawlio Budd-dal Plant 48 awr ar ôl i chi gofrestru genedigaeth eich plentyn, neu unwaith y daw plentyn i fyw gyda chi.
Fel arfer caiff ei dalu i chi bob 4 wythnos.
Mae unrhyw un yn gymwys. Os ydych yn ennill dros £50,000 y flwyddyn, caiff eich taliadau eu haddasu yn unol â hynny.
Am fwy o wybodaeth ewch i gov.uk/child-benefit

# Cyngor ar Bopeth

Mae Cyngor ar Bopeth Cymru yn cynnig cyngor cyfrinachol am ddim ar amrywiaeth o faterion gan gynnwys arian, dyled a budd-daliadau.

I siarad â chynghorydd, ffoniwch 03444 77 20 20 (9am i 5pm, dydd Llun i ddydd Gwener)
neu i gael gwybodaeth a/neu siarad â chynghorydd ar-lein, ewch i

**www.citizensadvice.org.uk/wales/aboutus/contact-us**



# Gofal Plant Di-dreth

Os ydych yn rhiant sy'n gweithio, gallwch gael hyd at £500 bob tri mis (hyd at £2,000 y flwyddyn fesul plentyn) i helpu gyda chostau gofal plant, beth bynnag fo oedran eich plentyn.
Gallwch ei ddefnyddio i dalu am ofal plant gan gynnwys:
Gwarchodwyr plant, meithrinfeydd dydd, cylchoedd chwarae
a gofal y tu allan i'r ysgol.

Rhaid i'r darparwyr gofal plant gofrestru ar gyfer y gwasanaeth I ddarganfod faint allech chi ei gael tuag at eich costau gofal plant a gwirio a ydych chi'n gymwys, ewch i www.childcarechoices.gov.uk.

# Grwpiau Babanod Cymraeg i Blant

Mae Cymraeg i Blant yn cynnal grwpiau babanod am ddim ar draws Sir Fynwy gan gynnwys tylino babanod ac amser stori a rhigymau. Ewch i facebook.com/cymraegiblantmynwy am fanylion.

# Amser Rhigwm Babanod ac Amser Stori yn Llyfrgelloedd Sir Fynwy

Mae Llyfrgelloedd Sir Fynwy yn cynnal amser rhigymau babanod ac amseroedd stori am ddim yn eu llyfrgelloedd ar wahanol adegau yn ystod y flwyddyn. Gallwch hefyd fenthyg amrywiaeth o lyfrau lluniau a llyfrau bwrdd i'w defnyddio gyda'ch babi heb unrhyw gost. Ewch i https://tinyurl.com/4dca9ucn  am fanylion.

# Cymorth Gofal Plant Credyd Cynhwysol:

IOs ydych yn talu am ofal plant tra byddwch yn mynd i weithio, gall Credyd Cynhwysol dalu rhai o’ch costau gofal plant.
Pwy sy'n gymwys ar gyfer costau gofal plant Credyd Cynhwysol?
Mae angen i chi fod naill ai mewn gwaith cyflogedig neu'n dechrau swydd yn ystod y mis nesaf.
Os ydych yn byw gyda phartner, mae angen i'r ddau ohonoch fod mewn gwaith cyflogedig, oni bai na all eich partner ofalu am eich plant.
Nid oes gwahaniaeth faint o oriau yr ydych chi'n eu gweithio - nid oes isafswm.
Mae’n rhaid iddo fod yn waith â thâl, ac felly nid ydych chi’n gymwys os ydych chi’n gwirfoddoli ac yn derbyn arian ar gyfer treuliau yn unig.
Dysgwch mwy yma:
: **https://www.gov.uk/guidance/universal-credit-childcare-costs**

# Dewisiadau Gofal Plant

Ewch i https://www.childcarechoices.gov.uk/  i ddod o hyd i fanylion cymorth y Llywodraeth gyda chostau gofal plant i rieni. P'un a oes gennych chi blant bach neu bobl ifanc yn eu harddegau, gallech dderbyn cefnogaeth.

# Darganfyddwch yr hyn yr ydych yn gymwys ar ei gyfer

Ewch i **entitledto.co.uk/help/cost-of-living** er mwyn sicrhau eich bod yn derbyn pob dim y mae gennych hawl iddo.



# O'r adeg pan fyddwch chi'n cael babi am y tro cyntaf:






# Darpariaeth Dechrau'n Deg a Chyllid ar gyfer Plant 2 Flwydd Oed

Mae Dechrau'n Deg yn rhoi mynediad i chi at ystod eang o wasanaethau gan gynnwys cefnogaeth Ymwelwyr Iechyd, cefnogaeth iaith gynnar; Gofal plant rhan-amser am ddim i blant 2 i 3 oed gan ddarparwr sydd wedi'i gofrestru ar gyfer darpariaeth Dechrau'n Deg. E-bostiwch flyingstart@monmouthshire.gov.uk i ddarganfod a ydych yn byw mewn ardal Dechrau'n Deg.

Mae Rhaglen Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ehangu darpariaeth y blynyddoedd cynnar fesul cam i gynnwys pob plentyn dwy oed, gyda phwyslais arbennig ar gryfhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Mae'r cynnig gofal plant dwyflwydd oed Dechrau'n Deg yn canolbwyntio ar gyflwyno'n raddol yr elfen gofal plant rhan amser o ansawdd uchel o Dechrau'n Deg i blant 2-3 oed. Mae ardaloedd ar gyfer eu cyflwyno wedi'u nodi gan ddefnyddio Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD), data gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi ac maent wedi'u dadansoddi yn ôl Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOAs).

Mae'r gwaith o ehangu'r cynllun wedi'i gwblhau ar gyfer 2023 ond wrth i'r rhaglen ehangu ar draws Sir Fynwy yn 2024, byddwn yn cysylltu â theuluoedd i roi gwybod iddynt pan fydd eu cod post wedi'i gynnwys fel ardal darged.

Bydd y cynnig gofal plant dwyflwydd oed yn rhoi'r hawl i bob plentyn 2 oed gael 12.5 awr o ofal plant wedi'i ariannu'n llawn, o'r tymor ar ôl eu penblwydd yn 2 flwydd oed, am 39 wythnos o'r flwyddyn.

Gallwch ddarganfod a yw eich cod post wedi'i gynnwys ar hyn o bryd yn https://maps.monmouthshire.gov.uk/

# Y Cynnig Gofal Plant

Mae'n bosibl y byddwch yn gymwys ar gyfer y Cynnig Gofal Plant o'r tymor yn dilyn pen-blwydd eich plentyn yn 3 oed, tan y mis Medi y mae'n dechrau yn y dosbarth derbyn.
Mae hwn yn gyfuniad o gyllid addysg gynnar a gofal plant, hyd at 30 awr yr wythnos, am 48 wythnos y flwyddyn.

Gallwch dalu am unrhyw oriau ychwanegol o ofal plant drwy gontract preifat gyda'ch darparwr gofal plant.

Gallwch wneud cais am gyllid y Cynnig Gofal Plant hyd at 90 diwrnod cyn dechrau'r tymor y mae'r cyllid yn dechrau.

I wneud cais ewch i
**www.llwy.cymru/gofal-plant**

# Addysg Gynnar

Mae yna nifer o leoliadau gofal plant preifat sy'n darparu addysg gynnar.
Gall rhieni ddewis naill ai meithrinfa ysgol neu leoliad cymeradwy nas cynhelir yn Sir Fynwy.

Mae cyllid ar gael o ddechrau'r tymor yn dilyn trydydd pen-blwydd y plentyn (diffinnir dyddiadau tymhorau fel 1af Ionawr, 1af Ebrill a 1af Medi – nid oes ots pryd mae gwyliau'r ysgol).

Ar hyn o bryd mae'r cyllid wedi'i osod yn £10 y sesiwn (2 awr), am bum sesiwn yr wythnos, cyn belled â bod y sesiynau hyn ar ddiwrnodau gwahanol. Mae'r cyllid yn debyg i'r cyllid y mae meithrinfeydd ysgol yn ei dderbyn fesul disgybl rhan amser. Caniateir i'ch plentyn fynychu pob lleoliad am y ddwy awr y dydd yn rhad ac am ddim ond os yw'r sesiwn yn fwy na dwy awr a'ch bod yn dymuno i'ch plentyn aros am y sesiwn lawn sydd ar gael, bydd gofyn i chi dalu ffi ychwanegol.





O Oedran Ysgol:

# Grant Hanfodion Ysgolion

Gall teuluoedd ar incwm is ac sy'n derbyn budd-daliadau penodol hawlio £125 y plentyn y flwyddyn i helpu gyda chostau ysgol. Oherwydd y gost ychwanegol y gallai teuluoedd ei hwynebu pan fydd eu plant yn dechrau yn yr ysgol uwchradd, mae £200 ar gael i ddisgyblion sy'n mynd i mewn i flwyddyn 7.

Gellir defnyddio'r grant i dalu am:

- gwisg ysgol, gan gynnwys cotiau ac esgidiau
- gweithgareddau ysgol, fel dysgu offeryn cerdd, cit chwaraeon ac offer ar gyfer gweithgareddau ar ôl ysgol
- hanfodion yr ystafell ddosbarth, fel beiros, pensiliau a bagiau

Dylai teuluoedd plant sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim Cynradd Cyffredinol wirio eu cymhwysedd am gymorth o hyd er mwyn iddynt allu cael y Grant Hanfodion Ysgol. Rhaid i deuluoedd gofrestru eu cymhwysedd ar gyfer y grant drwy eu hawdurdod lleol, ni fyddant yn ei gael yn awtomatig. Bydd eu hysgol hefyd yn cael cyllid ychwanegol drwy'r Grant Datblygu Disgyblion, y gallant ei ddefnyddio i ddarparu cymorth ychwanegol i blant o deuluoedd incwm is.

# Gweithgareddau MonLife

Drwy gydol y flwyddyn, mae MonLife yn cynnal amrywiol sesiynau rhad ac am ddim a chost isel i blant oed ysgol gynradd gan gynnwys sesiynau chwarae egnïol. Gallwch ddod o hyd i fanylion drwy fynd i monlife.co.uk

# Cymorth gyda'r Gymraeg

Mae cymorth am ddim ar gael i blant ysgol a'u teuluoedd sy'n dymuno derbyn eu haddysg mewn ysgol Gymraeg. Dewch o hyd i fanylion yma - https://www.monmouthshire.gov.uk/welsh-language-provision-and-support/



# Dod yn Warchodwr Plant Sir Fynwy!



**Ydych chi'n edrych am gyflogaeth hyblyg?**

Fel gwarchodwr plant, gallwch weithio pryd y dymunwch, gosod eich prisiau eich hun a chael eich plant gyda chi.

*Cefnogaeth lawn gan Gyngor Sir Fynwy a Pacey Cymru ar hyd y broses

*Hyfforddiant am ddim, grantiau sefydlu, cysylltiadau i warchodwyr plant eraill, hyrwyddo am ddim a mwy.



Gweithio o'ch cartref a gosod eich oriau eich hun



Darparu gwasanaeth gwerthfawr i rieni lleol



Cymorth, hyfforddiant ac adnoddau am ddim

**Medrwch gael mwy o wybodaeth drwy anfon e-bost at childcare@monmouthshire.gov.uk nawr.**

Monmouthshire
Family Information Service
Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd









## Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Sir Fywny



- Gofal plant
- Addysg Gynnar
- Cyllid Gofal Plant
- Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd
- Gweithgareddau Hamdden
- Cefnogaeth Darparwr Gofal Plant
- Cymorth ADY ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar
- Dod yn Warchodwr Plant
- Darpariaeth Gymraeg
- Grwpiau Plant Bach
- Dechrau'n Deg

**01633 644527**

**monfis.org.uk** **facebook.com/moncfis**

**childcare@monmouthshire.gov.uk**